Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Cowbridge Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 27 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80364-957-3

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom

2. Crynodeb o'r arolygiad

3. Yr hyn a ganfuom

    - Ansawdd profiad y claf

    - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

    - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

4. Y camau nesaf

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C – Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cowbridge Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 27 Gorffennaf 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:
Canfuom fod Cowbridge Dental Care yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cwrtais a chyfeillgar dros y ffôn.

Canfuom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Canfuom fod y practis yn hyrwyddo cyfrinachedd a bod sgyrsiau sensitif neu gyfrinachol yn cael eu trin mewn modd briodol a phreifat
- Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgar a phroffesiynol.

## Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd yn ymddangos bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw a'i gyfarparu'n dda i gyflawni'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w cyflawni. Roedd pob ardal yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon gweladwy.

Gwnaethom argymell gwelliannau i gofnodion cleifion i sicrhau bod gwybodaeth yn ymwneud â sgrinio am ganser y geg; cyflwr hylendid y geg a deiet y claf; dewis iaith y claf; rheswm y claf dros fynychu; cydsynio ac archwilio meinwe meddal yn cael ei chofnodi'n gyson.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid diwygio'r rhestr wirio ddyddiol fel y gall y staff lofnodi a dyddio'r tasgau a gwblhawyd
- Dylid ychwanegu'r offer brys at y rhestr wirio (cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys) er mwyn sicrhau bod yr eitemau hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd
- Dylid cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i ysmygu.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, wedi'u cyfarparu'n dda, ac yn addas i'r diben ac roedd y cyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd gan y practis drefniadau diogelwch tân priodol ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynnal adeilad diogel ar gyfer y staff a'r ymwelwyr

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom grŵp o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Canfuom fod y practis wedi'i drefnu'n dda a bod polisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn bodloni'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer practisau deintyddol preifat yng Nghymru. Roedd dogfennau'n ymwneud â gwybodaeth am y staff yn cael eu cadw'n ddiogel, ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y practis.

Roedd cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i'r staff er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol gan y prif ddeintydd yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol, i sicrhau gofal o ansawdd uchel i'r cleifion
- Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm, gan ei gwneud yn bosibl i'r practis redeg yn effeithlon
- Roedd polisïau a dogfennau'r practis yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae manylion y pryderon dros ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen i'w gweld yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 42 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

> *"Cyfeillgar iawn. Mae fy mhlant yn mwynhau'r sticeri"*
> *"Gwasanaeth rhagorol bob amser. Gwych gyda phlant"*
> *"Bob amser wedi bod yn siriol iawn ac yn barod i helpu. Safonau uchel o ofal deintyddol"*

### Cadw'n iach

**Hybu, diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom fod newidiadau wedi'u gwneud yn y practis i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys cadw'r prif ddrws ar glo, felly roedd yn rhaid i'r cleifion bwyso'r gloch i gael mynediad. Roedd peiriannau dosbarthu hylif alcohol wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom fod y ffenestri ar agor a bod systemau puro'r aer yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn lleihau trosglwyddiadau ymhellach. Roedd y staff yn gwisgo masgiau a chynghorwyd y cleifion i wneud yr un peth.

Yn ystod eu cyfnod yn y practis, teimlai'r holl gleifion a gwblhaodd holiadur, ond un, ei bod yn amlwg iawn bod y gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis yn cydymffurfio â mesurau COVID-19.

Gwelsom arwyddion yn y practis gyda'r geiriau 'Dim Ysmygu' arnynt, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar fangreoedd di-fwg.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd yr holl ymatebwyr ond un eu bod o’r farn bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd angen cymorth arnynt.

Dywedwyd wrthym fod drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, a bod hynny hefyd yn golygu y gellir cynnal sgyrsiau preifat â chleifion.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis un aelod o staff sy’n siarad Cymraeg a chadarnhaodd un person a gwblhaodd holiadur AGIC mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith a'i fod wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg.

Dywedwyd wrthym nad oedd gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu, ond y byddai'n ymdrechu i ddarparu gwybodaeth i’r cleifion yn eu dewis iaith a/neu fformat.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael a oedd yn cynnwys gweithdrefn gwyno'r practis, a gwelwyd posteri yn atgoffa’r cleifion am symptomau COVID-19 ac am wisgo masgiau. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC hefyd wedi'u harddangos.

Mae'r rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG ar gael ar wefan y practis. Dywedwyd wrthym fod trafodaethau gyda’r cleifion ynghylch costau yn cael eu cynnal cyn i driniaethau ddechrau.

Roedd enw'r practis yn weladwy o'r tu allan. Roedd enwau'r deintyddion, oriau agor y practis a rhif ffôn hefyd wedi'u harddangos yn glir.

## Gofal amserol

### Mynediad amserol

Gwelsom fod y practis yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau'n cael eu gwneud dros y ffôn.

O'r 42 o bobl a ymatebodd i'r holiadur, teimlai 33 ei bod yn ‘hawdd iawn’ cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a dywedodd naw arall ei bod hi'n ‘eithaf hawdd’.

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn hysbysu’r cleifion am unrhyw oedi.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn neilltuo nifer o apwyntiadau ar gyfer unrhyw glaf sydd eisiau apwyntiad brys.

Dywedodd 34 o’r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau pe bai ei angen arnynt ar gyfer problem ddeintyddol frys.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**
Gwnaethom adolygu cofnodion wyth claf a chanfuom, lle bo'n berthnasol, fod tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd 42 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn eu holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

**Hawliau pobl**
Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisïau ar waith sy’n ymwneud â chyfleoedd cyfartal cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod hawliau dynol y cleifion a'r staff yn cael eu cynnal.

Dywedodd 39 allan o 42 o gleifion a atebodd y cwestiwn eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Gwelsom fod gan y practis un ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Roedd gan y practis lifft grisiau y gallai’r cleifion ei ddefnyddio i gael mynediad at yr ystafell driniaeth hon.

**Gwrando a dysgu o'r adborth**
Gwelsom fod y practis yn arddangos copi o'i weithdrefn gwyno wrth ymyl y dderbynfa. Roedd y polisi a'r weithdrefn yn cynnwys gwybodaeth briodol yn ymwneud ag amserlenni ac uwchgyfeirio cwynion.

Nid oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym pe bai hynny'n digwydd, y byddai cofnod o gwynion yn cael ei gadw'n gyfredol ac mewn ffolder pwrpasol.

Cawsom wybod bod adborth i'r practis yn cael ei groesawu drwy ddulliau megis ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, ac adborth a roddwyd i staff y practis wyneb yn wyneb. Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw adborth gan y cleifion yn cael ei

adolygu, ac y byddai unrhyw themâu a nodwyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**
Canfuom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff a'r ymwelwyr â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Roedd y dderbynfa ac un ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf ac roedd modd cael mynediad atynt drwy risiau neu lifft grisiau.

Roedd yn bosibl gweld bod pob ardal yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon amlwg. Gwelsom yng nghegin y staff fod rhywfaint o ddifrod i'r arwyneb gwaith a'r cypyrddau ac rydym yn argymell fod hyn yn cael ei atgyweirio i sicrhau bod safonau rheoli heintiau'n cael eu cynnal.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddihalogi mewn cyflwr da. Roedd gan bob ystafell y cyfarpar angenrheidiol i gyflawni'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon ynghylch glendid y practis deintyddol, a nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis deintyddol yn lân iawn yn eu barn nhw.

Ni nodwyd unrhyw broblemau ynglŷn â'r gwres, y goleuadau neu'r awyru.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau gwahanol o gwmpas y practis, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu. Roedd asesiad risgiau tân wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2022. Gwelsom nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi a'i bod yn amlwg bod risgiau wedi'u gwerthuso yn yr asesiad. Roedd yr holl wybodaeth ynglŷn â diogelwch tân yn cael ei storio mewn ffeil ac roedd yn cynnwys tystiolaeth o ymarferion tân a hyfforddiant tân i'r staff.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân. Roedd arwyddion dim ysmygu a phoster iechyd a diogelwch wedi'u harddangos, gan gynnwys tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiad risg iechyd a diogelwch i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben. Gwelsom fod gan y practis asesiad risg COVID-19 ar waith a bod yr holl staff wedi cynnal asesiadau risg COVID-19 unigol.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes ar waith.

**Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod polisi rheoli heintiau priodol ar waith, a oedd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff a gwelsom wastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac ar wahân i wastraff nad yw'n beryglus. Gwnaethom argymell y dylid cael derbynneb o'r fferyllfa a'i chadw ar ffeil i ddangos pryd mae'r staff yn mynd â meddyginiaethau a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys sydd heb eu defnyddio/wedi mynd heibio i'w dyddiad i'r fferyllydd eu gwaredu.

Gwnaethom nodi bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi ddynodedig mewn cyflwr gweithredol. Gwelsom bolisïau ar yr hysbysfwrdd a gwnaethom argymell eu bod yn cael eu lamineiddio fel y gellir eu sychu'n lân yn rheolaidd.

Gwelsom fod rhestr wirio ddyddiol ar waith ond gwnaethom argymell ei bod yn cael ei diwygio fel y gall y staff lofnodi a dyddio'r tasgau a gwblhawyd. Yn ogystal, gwnaethom argymell bod llyfr cofnodion uwchsonig yn cael ei ddefnyddio a'i gwblhau ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff ar gyfer gweithio yn yr ardal hon.

Roedd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael ei gwblhau'n flynyddol, ac roedd unrhyw feysydd i'w gwella yn cael eu cwblhau.

Roedd gan y practis unigolyn arweiniol neilltuedig ar gyfer dihalogi, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi dilyn hyfforddiant rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ymdrin ag unrhyw anafiadau a achoswyd gan offer miniog.

**Rheoli meddyginiaethau**
Canfuom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys. Roedd polisi argyfyngau meddygol ar waith a oedd yn cynnwys rhoi meddyginiaethau i'r cleifion, trin meddyginiaethau a'u dosbarthu.

Roedd offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom nifer o eitemau a oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn. Archebodd yr eitemau gofynnol ar unwaith.

Gwelsom fod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio mewn lleoliad sy'n hygyrch i'r staff.

Roedd systemau ar waith i nodi tystiolaeth bod gwiriadau ar y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gwnaethom argymell bod yr offer brys hefyd yn cael ei ychwanegu at y rhestr wirio i sicrhau bod yr eitemau hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf ac roedd hyfforddiant y ddau ohonynt yn gyfredol. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael, ac roedd popeth ynddo o fewn ei ddyddiad ac yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwnaethom gynghori bod y padiau presgripsiwn a gedwir ym mhob ystafell driniaeth hefyd yn cael eu rhoi dan glo ar ddiwedd y dydd mewn drôr/cwpwrdd diogel.

Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau cywir y byddent yn eu dilyn pe bai argyfwng neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad amhriodol sy'n ymwneud â chyffuriau.

**Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl**
Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant, ar lefel un a lefel dau. Y prif ddeintydd oedd arweinydd diogelu'r practis a dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd iddo.

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith. Roedd y ddogfen yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol, a siart lif er mwyn cyfeirio'n gyflym at y camau gweithredu y gallai fod angen i'r staff eu cymryd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru i sicrhau bod ei holl wybodaeth ddiogelu yn gyfredol.

Gwelsom fod ffeiliau'r holl staff yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gafodd ei gynnal cyn eu cyflogaeth, a'i fod yn cael ei adnewyddu bob tair blynedd.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**
Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer. Roedd tystiolaeth o hyn ar ffurf tystysgrifau hyfforddi a bod y staff yn mentora eraill.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod cyfarpar radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Canfuom fod hyn yn cydymffurfio, bod y dogfennau perthnasol ar waith a bod yr wybodaeth yn gyfredol.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a oedd wedi'i gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod archwiliad radiograffeg wedi'i gwblhau a oedd yn dangos cydymffurfedd bellach â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a gofynion monitro sicrwydd ansawdd.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio arweiniad proffesiynol a'u bod yn ei ddefnyddio i ddiweddaru eu polisïau eu hunain pan oedd yn berthnasol.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Roedd gan y practis bolisi sicrwydd ansawdd ar waith. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cwblhau mewn perthynas â rhagnodi gwrthfiotigau, cofnodion clinigol ac archwiliadau atgyfeiriadau at hylenydd. Gwnaethom argymell bod archwiliad rhoi'r gorau i ysmygu yn cael ei gynnal.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael ardystiad arfer da gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain a gwelsom yr ardystiad yn dystiolaeth o hyn.

Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a llunio adroddiad ysgrifenedig ar weithrediad y practis. Felly, rydym yn argymell bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu

gofynion Rheoliad 23 ac yn cynnal ymweliad cyn gynted â phosibl. Dylid cyflwyno'r adroddiad a gynhyrchir i AGIC.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu**

Canfuom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel ac yn unol â pholisi rheoli gwybodaeth priodol.

Roedd ffolderi personol y staff a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif a chyfrinachol hefyd yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig iddynt.

**Cadw cofnodion**

Fel rhan o'r arolygiad, gwnaethom adolygu wyth set o gofnodion cleifion. Daethom i'r casgliad fod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda iawn. Roedd y nodiadau yn glir ac o ansawdd da.

Roedd yr holl gofnodion a adolygwyd gennym yn cynnwys dynodwr y claf, ei hanes deintyddol blaenorol a'i hanes meddygol. Gwelsom fod y driniaeth a ddarparwyd wedi'i dogfennu yn ogystal â gwybodaeth adalw.

Gwnaethom nodi nad oedd rhai meysydd wedi’u cofnodi'n gyson ac argymhellwyd bod y meysydd hyn yn cael eu hadolygu a'u gwella. Yn benodol, mae'r meysydd yr oedd angen rhoi sylw iddynt yn cynnwys sgrinio am ganser y geg, cyflwr hylendid y geg a deiet, dewis iaith y claf, y rheswm dros fynychu, cydsynio ac archwilio meinwe meddal.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd (perchennog y practis) sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith o reoli'r practis ac fe yw'r unigolyn cyfrifol. Mae'n cael ei gefnogi gan ddeintydd arall, tair nyrs ddeintyddol, un hylenydd, tri aelod o staff derbynfa a rheolwr practis. Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol â'u hamodau cofrestru.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn eu perthynas a'u rhyngweithio â'i gilydd ac AGIC ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion, yr oedd y ddau ohonynt yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae'r datganiad o ddiben ar gael ar wefan y practis.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael i'r holl staff.

Mae'r prif ddeintydd yn sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno yn achos unrhyw anafiadau difrifol.

Dywedwyd wrthym, oherwydd COVID-19, nad yw cyfarfodydd tîm wedi bod yn cael eu cynnal yn eu fformat traddodiadol. Yn lle hynny, dywedodd y staff wrthym fod sesiynau briffio llafar yn cael eu cynnal gyda'r staff. Mae unrhyw negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu i unrhyw aelod o staff na all fynychu'r sesiynau briffio.

## Y Gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio staff newydd a bod polisïau ar waith i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff.

Gwnaethom adolygu ffeiliau'r staff a chanfod eu bod yn cynnwys contractau cyflogaeth, geirdaon, gwiriadau hunaniaeth a chofnod o imiwnedd rhag Hepatitis B.

Dywedwyd wrthym y cynhelir arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff a gwelsom dystiolaeth o'r rhain yn rhai o ffeiliau'r staff.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch darparu gofal i'r cleifion, naill ai'n uniongyrchol ag aelod o staff neu â chorff priodol arall os oedd angen.

Gwelsom dystiolaeth fod cofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff a bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Cowbridge Dental Care

**Dyddiad yr arolygiad:** 27 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion ynghylch sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Cowbridge Dental Care

**Dyddiad yr arolygiad:** 27 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen diwygio'r rhestr wirio ddyddiol fel y gall y staff lofnodi a dyddio'r tasgau a gwblhawyd. | Rheoliad 13(1)(b) a (3)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Mae'r rhestrau gwirio dyddiol wedi cael eu diwygio a'u diweddaru er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r staff lofnodi a dyddio'r tasgau a gwblhawyd | Dr. J. R. Ayres | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rydym yn argymell bod llyfr cofnodion ar gyfer cyfarpar uwchsonig yn cael ei ddefnyddio a'i gwblhau ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. | Rheoliad 13(1)(b) a (3)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Mae llyfr cofnodion wedi'i greu fel y gall staff lofnodi a dyddio'r tasgau a gwblhawyd | Dr. J. R. Ayres | Cwblhawyd |
| Pan fo meddyginiaeth na ddefnyddiwyd a/neu sydd wedi mynd heibio i'w dyddiad yn cael ei waredu, dylid cael derbynneb gan y fferyllfa a'i chadw ar ffeil fel tystiolaeth bod y trafodiad wedi digwydd. | Rheoliad 13(4)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal – 2.6 rheoli meddyginiaethau | Bydd hyn yn cael ei wneud o hyn ymlaen pan fyddwn yn cael gwared ar feddyginiaeth na ddefnyddiwyd/sydd wedi mynd heibio i'w dyddiad. | Dr. J. R. Ayres | Cwblhawyd |
| Dylid ychwanegu'r offer brys at y rhestr wirio (cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys) er mwyn sicrhau | Rheoliad 13(2)(a) a 31(3)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth | Mae'r rhestrau gwirio wedi cael eu diwygio a'u diweddaru fel eu bod yn cynnwys yr offer brys er | Dr. J. R. Ayres | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| bod yr eitemau hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd. | Breifat (Cymru) 2017 Safonau Iechyd a Gofal - 2.9 dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig | mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd | | |
| Dylid cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i ysmygu. | Rheoliad 16(1)(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.3 gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Gwnaed cais i AaGIC ac rydym yn y broses o gynnal yr archwiliad. | Dr. J. R. Ayres | Er ein bod yn y broses o gynnal yr archwiliad, oherwydd yr amser sydd ei angen i'w gwblhau a'r amseroedd ymateb / adborth a brofwyd yn flaenorol gan AaGIC, disgwylir iddo gael ei gwblhau ymhen y tri i bedwar mis nesaf. |
| Mae angen cwblhau adroddiad Rheoliad 23, gan gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau, a'i gyflwyno i AGIC. | Rheoliad 23(2)(a)(b)(c), (3), (4)(a)(b)(c), (5)(a)(b)(i)(ii) a (6) o Reoliadau Deintyddiaeth | Yn dilyn trafodaethau ag arolygydd AGIC, mae copi o'r adroddiad Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch (QAS) 2021/22 wedi cael ei lanlwytho i borth Objective Connect i ddangos | Dr. J. R. Ayres | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat (Cymru) 2017 | tystiolaeth o gydymffurfio â Rheoliad 23. | | |
| Mae angen adolygu a gwella cofnodion cleifion er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth yn ymwneud â'r meysydd canlynol: sgrinio am ganser y geg, cyflwr hylendid y geg a deiet, dewis iaith y claf, y rheswm dros fynychu, cydsynio ac archwilio meinwe meddal. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii)<br><br>Safonau Iechyd a Gofal – 3.5 Cadw cofnodion | Mae hyn wedi cael ei adolygu a'i drafod, ac mae cofnodion/templedi wedi cael eu diwygio/diweddaru i sicrhau cysondeb. | Dr. J. R. Ayres | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Dr. J. R. Ayres**

**Swydd: Perchennog y Practis**

**Dyddiad: 19/8/22**